# Dyletswydd o ran Bioamrywiaeth a Gwydnwch Systemau Eco – cynllun ac adroddiad 2021

***Adroddiad o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6***

Medi’r 1af 2021

# Cyflwyniad

1 Bu i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch eco systemau uwch (dyletswydd Adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni gweithrediadau cysylltiedig â Chymru. Mae dyletswydd Adran 6 yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni gweithrediadau cysylltiedig â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwydnwch eco systemau, cyhyd ag sy'n gyson gydag arferion priodol y gweithrediadau hynny."

2 Mae'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) wedi'u diffinio fel awdurdod cyhoeddus o ran telerau Deddf yr Amgylchedd (Cymru). I'r perwyl hwn, mae gofyn inni lunio adroddiad am ein perfformiad yn ymwneud â'r ddyletswydd bioamrywiaeth o dan Adran 6. Rydym yn bodloni'r ddyletswydd hon ar y cyd ag ein dyletswyddau statudol eraill, wedi'u crybwyll yn bennaf yn y Ddeddf Rheilffyrdd 1993. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ein dull gweithredu'n ymwneud â bioamrywiaeth ac arferion gweithrediadau statudol ORR yn ymwneud â Chymru o'r cyfnod o 2016 – Fehefin 2021. Bu inni gydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru o ran ni ddylai'r ddyletswydd adroddi fod yn feichus. O ganlyniad mae ein hadroddiad yn gymesur â maint a math ein mudiad, o ran y camau yn ymwneud â bioamrywiaeth y gallwn ni eu cyflawni.

### Y rheilffordd yng Nghymru

3 Mae Rheilffordd Cymru Network Rail yn cysylltu prif drefi a dinasoedd Caerdydd, Casnewydd, Abertawe, Wrecsam ac Amwythig, ynghyd â chynnig cludiant mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae'r rheilffordd yn rhan o Ranbarth ehangach Cymru a'r Gorllewin.

4 Fe gafodd y rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd ei drosglwyddo o Network Rail i Drafnidiaeth Cymru ar Fawrth yr 28ain 2020.

5 Trafnidiaeth Cymru a Great Western Railway sy'n gyfrifol am y rhan helaeth o wasanaethau rheilffordd Llwybr Cymru i deithwyr. Mae CrossCountry ac Avanti West Coast hefyd yn cynnal gwasanaethau i deithwyr rhwng Cymru a gweddill Prydain. Mae gwasanaethau cludo nwyddau ar reilffyrdd hefyd yn hollbwysig, gan gludo amryw nwyddau, yn enwedig dur ar Brif Linell De Cymru ledled Cymru a thu hwnt.

### Ein gweithdrefn i reoleiddio bioamrywiaeth

6 Mae ORR yn reoleiddiwr economaidd a diogelwch ac mae ein rôl yn amrywio ledled y Deyrnas Unedig ac yn dibynnu ar y mudiadau rydym ni'n eu rheoleiddio. Rydym yn rheoleiddio perfformiad iechyd a diogelwch y diwydiant rheilffyrdd, rydym yn dwyn

Network Rail a High Speed 1 i gyfrif ac yn sicrhau bod y diwydiant rheilffyrdd yn gystadleuol ac yn deg. Yn ogystal, rydym yn gyfrifol am fonitro National Highways (Highways England gynt) ac rydym yn cynnal gweithrediadau rheoleiddio economaidd yn ymwneud â rheilffyrdd yng Ngogledd Iwerddon a'r rhan o Dwnnel y Sianel sydd yn y DU.

7 Er dibenion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac yn unol â chanllawiau adroddi Llywodraeth Cymru, rydym yn ystyried ein hunain fel mudiad "Grŵp 2". Nid ydym yn berchen ar unrhyw dir yng Nghymru nac ychwaith yn berchen ar swyddfeydd nac yn cynnal gwaith rheoli tir yng Nghymru[1], fodd bynnag mae ein tîm yn weithredol ar lawr gwlad yng Nghymru o ran ein holl weithgarwch rheoleiddio. O ganlyniad, rydym yn fudiad:

- sy'n cyflawni gweithrediadau sy'n gysylltiedig gyda bioamrywiaeth a/neu reoli'r tir, a
- gallwn ddylanwadu'r rheiny sy'n berchen ar neu'n rheoli tir.

8 Dydy ORR ddim yn gweithredu fel rheoleiddiwr amgylcheddol ar ran rheilffyrdd yng Nghymru – Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am y gweithgarwch hwnnw. Fodd bynnag, mae ein rolau rheoleiddio economaidd a diogelwch yng Nghymru eill dau yn gyfle inni ddylanwadu'n gadarnhaol ar fioamrywiaeth. Y brif ffordd rydym yn bwrw iddi i gyflawni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ydy drwy ddwyn Network Rail i gyfrif am eu gwaith yn rheoli'r rhwydwaith rheilffyrdd ac ymylon y rheilffyrdd yng Nghymru. Rydym yn cynnig rhagor o fanylion am ein gweithgarwch, a allai effeithio ar fioamrywiaeth, isod.

9 Mae ORR yn meddu ar bolisi datblygu cynaliadwy. Rydym wrthi'n diweddaru'r polisi ar hyn o bryd ac fe fydd ymgynghoriad yn ei gylch yn nes ymlaen yn 2021. Bydd ein hadroddiad nesaf yn 2022 yn adlewyrchu unrhyw ddiweddariadau i hyn.

## Diwygio Rheilffyrdd

10 Cafodd Cynllun Rheilffyrdd Williams-Shapps ei gyhoeddi ym mis Mai 2021, gan ymdrin â gweledigaeth o ran dyfodol y diwydiant rheilffyrdd. Roedd yn dwyn i ystyriaeth effaith rheilffyrdd ar yr amgylchedd, gan amlygu dyheadau o ran gwelliannau i'r fioamrywiaeth.

11 Mae ORR yn cydweithio gydag ystod o randdeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd yn ei gyfanrwydd ynghylch gweithredu'r Cynllun Rheilffyrdd. Fel rhan o'n gwaith, byddwn

[1] [1] Mae gennym ni chwe swyddfa – yn Llundain (ein prif swyddfa), Birmingham, Bryste, Glasgow, Manceinion ac Efrog

yn dwyn i ystyriaeth effaith unrhyw newidiadau strwythurol i rolau priodol y diwydiant, gan gynnwys ein rôl fel rheoleiddiwr. Byddwn hefyd yn ystyried sut gallai hyn ein galluogi i gefnogi bioamrywiaeth yn fwy effeithiol ymhlith effeithiau amgylcheddol eraill.

## Gweithgarwch ORR yn ymwneud â bioamrywiaeth

12 Dyma amcanion mwyaf perthnasol y Cynllun Gweithredu Adfer Natur er dibenion yr adroddiad hwn:

- amcan 1: annog a chefnogi cymryd rhan a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel;
- amcan 4: mynd i'r afael â'r pwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd; ac
- amcan 6: llunio fframwaith llywodraethu a chefnogi ar gyfer cyflawni

13 Pan fyddwn yn cyflawni ein gweithrediadau rheoleiddio, byddwn yn cynnal amryw weithgareddau ar sail gylchol ac wedi'i dargedu sy'n ymwneud gyda neu'n gysylltiedig gyda phroblemau bioamrywiaeth fel sydd wedi'u crybwyll isod:

### *Craffu ar reolaeth Network Rail o'r rhwydwaith*

14 Yng Nghymru mae gennym ni rôl diogelwch yn ymwneud â'r rhwydwaith (gan gynnwys ymylon y rheilffyrdd) a chwmnïau cludo teithwyr a nwyddau. Rydym yn cynnig arweiniad, yn cyhoeddi adroddiadau ar berfformiad, yn cynnal archwiliadau, yn ymchwilio i achosion o dorri rheoliadau iechyd a diogelwch ar y rheilffyrdd ac yn cymryd camau gorfodi anffurfiol a ffurfiol gan gynnwys hysbysiadau gwella ac erlyniadau. Dydy ein rôl diogelwch ddim o reidrwydd yn canolbwyntio ar broblemau'n ymwneud â bioamrywiaeth oni bai y gallai'r mater dorri'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch hefyd. Ynghlwm â'n rôl diogelwch rydym yn dwyn i ystyriaeth goblygiadau ehangach unrhyw ddeiliaid dyletswydd, ac yn cydweithio fel bo'n briodol gyda chyrff perthnasol eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

15 Rydym hefyd yn dwyn Network Rail i gyfrif am ei reolaeth ehangach o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru, lle mae'n dirfeddiannwr sylweddol. Rydym yn adolygu eu perfformiad o ran sawl agwedd fel effeithlonrwydd ariannol, perfformiad gweithredol a rheoli asedau. Rydym yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol fel bioamrywiaeth yn enwedig wrth ddwyn i ystyriaeth y gweithgaredd olaf o'r tri. At hyn, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar ymylon y rheilffyrdd.

16 Rydym yn dwyn Network Rail i gyfrif am y cynlluniau a'r gweithgareddau gaiff eu hariannu er mwyn eu cyflawni ymhen pob cyfnod ariannu o bum mlynedd y diwydiant rheilffyrdd. Rydym yn cydweithio'n agos gyda Network Rail i ddeall unrhyw gynlluniau a dyheadau ychwanegol yn yr ardal hon. Yn ogystal, rydym yn sicrhau bod Network Rail yn rheoli unrhyw bryderon y cyrff allweddol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, yn briodol. Rydym yn rheoleiddio Network Rail drwy ein gwaith o ddydd i ddydd ar y cyd â'r timau canolog a rhanbarthol ynghylch eu gweithgareddau a'u cynlluniau ar gyfer rheoli'r rhwydwaith a bioamrywiaeth. Rydym yn cyhoeddi asesiad blynyddol o weithgarwch Network Rail yma; ac mae yna bennod benodol ar Gymru.

17 Rydym yn cydnabod ei fod yn heriol i Network Rail geisio sicrhau cydbwysedd o ran rheoli'r rhwydwaith yn ddiogel yn ogystal â rheoli'r effaith ar fioamrywiaeth. Mae posib i'r ffactorau hyn achosi cryn drafferthion os na chân nhw eu rheoli'n ofalus, er enghraifft o ran rheoli llystyfiant ger ymylon y rheilffyrdd. Rydym yn cefnogi Network Rail i wneud y dewisiadau mwyaf effeithlon sy'n fodd o gynnal y rhwydwaith yn ddiogel, eu gofynion cyfreithiol eraill, eu gorchmynion gweithredol a gofynion rhesymol eu rhanddeiliaid.

18 Drwy ein cyfarfodydd chwarterol rheolaidd gyda thîm ymylon rheilffyrdd canolog Network Rail, buom yn ymdrechu i ddeall eu cynlluniau a'u gweithgarwch yn ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynnwys sut caiff bioamrywiaeth ei integreiddio o ran safonau a phrosesau'r ddisgyblaeth hon. Bu Network Rail yn rhagweithiol yn y maes hwn. Bu iddyn nhw gyhoeddi adroddiad bioamrywiaeth i Gymru. Mae ganddyn nhw hefyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn ymwneud â'u gwaith ledled Prydain, sy'n ei ymrwymo i'r nod allweddol o ddim colled net mewn bioamrywiaeth ar ein hystâd ymylon y rheilffyrdd erbyn 2024, gan sicrhau enillion net bioamrywiaeth erbyn 2035. Mae hyn yn rhan greiddiol o'u Strategaeth Cynaladwyedd Amgylcheddol ehangach a datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol amgylcheddol. Rydym wrthi'n monitro gweithrediad Network Rail o'u cynllun bioamrywiaeth a hynny'n bennaf trwy eu tîm canolog.

19 Rydym yn cydweithio gyda Network Rail a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall safbwyntiau'n ymwneud â'r prif faterion yng Nghymru. Bu i hyn godi problemau byw megis dyluniad pontydd (i ddiogelu rhag erydu ar y pontydd a gwarchod bioamrywiaeth) a'r angen i ddiogelu cynefinoedd arfordirol rhag gwasgfa arfordirol a sut caiff hyn ei ariannu.

**Direiliad Llangennech**

Ym mis Awst 2020, fe achosodd direiliad Llangennech halogiad yn sgil tanwydd wedi gollwng. Fel y bu inni ei amlygu yn ein Hasesiad Blynyddol, gan gydweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a chontractwyr amgylcheddol arbenigol, bu i dimau rheng flaen Network Rail weithio pob awr o'r dydd ar un o'r prosiectau adfer amgylcheddol mwyaf y mae Network Rail erioed wedi bod ynghlwm ag o. Bu i Cyfoeth Naturiol Cymru ddisgrifio'r prosiect fel y prosiect mwyaf heriol ers trychineb y Sea Empress ym 1996.

O ganlyniad i'r direiliad, rhaid oedd cau Rheilffordd Bwrdeistref Abertawe ac adran ddeheuol Rheilffordd Canol Cymru dros dro am gyfnod o saith mis. Bu i hyn effeithio ar berfformiad cludo nwyddau rheilffordd Cymru oherwydd fe gafodd gwasanaethau cludo nwyddau a theithwyr eu harallgyfeirio at reilffyrdd eraill. Bu i reilffordd Cymru gydweithio'n agos â rhanddeiliaid yn union ar ôl y direiliad, yn ystod y gwaith adfer amgylcheddol ac yn ystod y gwaith i atgyweirio'r rheilffordd. Bu i'r rheilffordd gynnig diweddariadau rheolaidd ac wedi'u targedu i grŵp amrywiol o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, gwasanaethau brys, asiantaethau eraill a mudiadau rheilffordd eraill. Mae hyn i'w ganmol yn fawr, yn enwedig o ystyried heriau'r pandemig. Cafodd y rheilffordd ei hail-agor i draffig ar ddechrau Mawrth 2021.

Bu i ORR fynychu'r safle fel rhan o'n rôl diogelwch. Ein prif flaenoriaeth oedd ymwneud a chanlyniadau o ran diogelwch yn sgil y digwyddiad ond bu inni gydweithio'n agos gyda Network Rail ac awdurdodau eraill, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr effeithiau amgylcheddol. Wrth gyflawni'r rôl hon rydym bob amser yn dwyn i ystyriaeth o ddyletswyddau eraill y rheolwyr isadeiledd / gweithredwyr rheilffyrdd, hyd yn oed os nad oes gennym ni rôl uniongyrchol o ran sicrhau eu bod yn bodloni'r dyletswyddau hynny.

20 Yn ychwanegol i'r uchod, rydym yn cydweithio gyda holl gyrff y rheilffyrdd i sicrhau bod datguddiadau i darthiadau gwacáu injan diesel a sŵn o fewn y terfynau yn y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Yn ei dro, fe allai hyn effeithio'n gadarnhaol ar fioamrywiaeth.

### *Gweithgarwch trwyddedu*

21 Gofynnwn i'r holl dalwyr trwydded (rheolwyr isadeiledd megis Network Rail a Llinellau Craidd y Cymoedd a gweithredwyr trenau cludo nwyddau a theithwyr) i lunio Polisi Amgylcheddol a chyhoeddi'r rheiny ar eu gwefannau.

22 Rydym yn diweddaru ein canllaw ar bolisïau amgylcheddol dalwyr trwydded ar hyn o bryd yn ogystal ag adolygu ein gweithdrefn. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad yn nes ymlaen yn 2021. Fel rhan o'r gwaith, byddwn yn ceisio cyflawni rôl fwy rhagweithiol

gan adolygu a chynnig adborth i ddalwyr trwydded ar y polisïau maen nhw'n eu llunio. Byddwn yn parhau i adolygu hyn drwy'r broses diwygio diwydiant.

### *Gweithgarwch adolygu cyfnodol*

23 Ynghlwm â threfniadau cyfredol y diwydiant, pob pum mlynedd rydym yn cynnal 'adolygiad cyfnodol' o gyllid Network Rail ac allbynnau arfaethedig y cyllid. Ymysg ein gwaith byddwn yn asesu cynlluniau Network Rail, gosod allbynnau, cynnal asesiadau effeithlonrwydd a gosod taliadau a chymhellion i weithredwyr sy'n manteisio ar y rhwydwaith rheilffyrdd. Mae hyn yn ei dro yn cynnig cyfleoedd inni annog canolbwyntio mwy ar fioamrywiaeth a phroblemau amgylcheddol ehangach (e.e. sicrhau bod y cyllid yn ddigonol i fodloni'r gofynion deddfwriaethol, a bod y cynlluniau ar gyfer gweithredu, cynnal ac adnewyddu'r rhwydwaith yn dwyn i ystyriaeth materion bioamrywiaeth fel sy'n briodol).

24 Bu inni fwrw iddi gydag ein adolygiad cyfnodol 2023 (PR23) yn ddiweddar sydd hefyd yn ymdrin â'r pum mlynedd o 2024-2029. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn adolygu sut bu i Network Rail ddwyn i ystyriaeth bioamrywiaeth yn eu cynlluniau rheoli asedau yn yr holl ranbarthau, gan gynnwys Cymru.

### *Awdurdodi rhwydwaith mewnol / cerbydau newydd*

25 Mae dyletswydd gennym ni'n ymwneud ag awdurdodi rhwydweithiau mewnol neu gerbydau newydd. Mae awdurdodi'n ymwneud yn bennaf â chydymffurfio gyda manylebau technegol. Mae'r manylebau'n cynnwys paramedrau sy'n gysylltiedig gyda gofynion hanfodol penodol ac ymysg y rheiny mae Diogelu'r Amgylchedd. Mae mwy o wybodaeth am awdurdodiadau yma.

### *Ymgysylltu ehangach gyda'r diwydiant*

26 Yn ychwanegol i'r uchod, rydym hefyd yn cydweithio gyda rhanddeiliaid y diwydiant i gyflawni ein dyletswyddau gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaladwyedd. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch Bwrdd Safonau a Diogelwch Rheilffyrdd (RSSB) ynghylch materion amgylcheddol, o dan fframwaith Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Rheilffyrdd (RSSB). Mae'r RSSB yn cynnal ystod eang o weithgareddau gyda'r nod o wella'r deilliannau amgylcheddol i'r rheilffyrdd. Yn debyg i hyn, rydym yn cydweithio fel sy'n briodol gyda'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd a'r Grŵp Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd ar faterion amgylcheddol.

## Adolygiad o'n hymagwedd tuag at ein dyletswydd s6

27 Drwy gynhyrchu'r adroddiad hwn, rydym wedi adolygu ein hymagwedd tuag at ein dyletswydd s6. Dyma'r prif faterion sydd wedi'u hamlygu:

(a) Mae ein diweddariad sydd ar y gweill o'n datganiad polisi datblygiad cynaliadwy ac ein canllaw i ddalwyr trwydded am eu polisïau amgylcheddol eill dau yn cynnig cyfle i wella ein gweithdrefnau'n ymwneud â materion bioamrywiaeth yng Nghymru a gweddill Prydain. Gallwn fanteisio ar y cyfle i amlygu ac atgyfnerthu'r gofynion yng Nghymru;

(b) Mae ein gweithgarwch dwyn i gyfrif ar waith yn yr ardal hon eisoes, ond byddwn yn ceisio ategu hyn ar lefel ranbarthol drwy ein cyfarfodydd rheolaidd gyda Network Rail Cymru a'r Gorllewin;

(c) Mae'r adolygiad sydd ar y gweill o gyllid Network Rail (adolygiad cyfnodol 2023 neu PR23) yn cynnig cyfle i ORR graffu ar gynlluniau Network Rail Cymru a'r Gorllewin (a Rheilffordd Cymru yn benodol) o ran bioamrywiaeth ymhellach i sicrhau caiff bioamrywiaeth ei hamlygu'n benodol yn ein hadolygiad; a

(d) Mae diwygio'r diwydiant yn gyfle i adolygu ac adnewyddu rolau'r diwydiant gan gynnwys rolau'n ymwneud â materion amgylcheddol megis gofynion bioamrywiaeth yng Nghymru.

© Office of Rail & Road 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym ni wedi adnabod gwybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn ichi dderbyn caniatâd gan y dalwyr hawlfraint perthnasol.

Gallwch fwrw golwg ar y cyhoeddiad hwn ar orr.gov.uk

Anfonwch unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni ar orr.gov.uk/contact-us